

ADRODDIAD CANGEN GWEITHREDIADAU'R MÔR A PHYSGODFEYDD

Hydref 2018 - Rhagfyr 2018

1. AGOR / CAU / TRWYDDEDAU AC AWDURDODIADAU ANDY BRADICK

- Bydd **Pysgodfa Gocos y Tair Afon**, sydd ar gau dros dro yn agor ar wely Llanybri (250 tunnell) ar benwythnosau o 21 Gorffennaf, ar wely Glan-y-fferi (200 tunnell) ar ddydd Mercher a dydd Iau o 15 Awst ac ar welyau Llanismel a Than-y-lan ar ddydd Mercher a dydd Iau o 19 Medi. Roedd pob gwely ar gau ar 28 Hydref oherwydd arolwg gwyddonol yn gynnar ym mis Tachwedd.
 - Llwyddwyd i agor y gwelyau drwy ymgysylltu'n helaeth â rhanddeiliaid a chydweithio'n effeithiol â chasglwyr, prosesyddion a thirfeddianwyr cyfagos gan gynnwys yr MOD..
 - Rhoddwyd 305 o drwyddedau yn 2018
 - 30-50 o gasglwyr y dydd gan godi i uchafswm o 105

Cyfansymiau Tymhorol

- 52 o ddiwrnodau pysgota (Gorffennaf-Hydref)
 - Tua 550,000 Kg wedi'u casglu
 - Rhwng £0.60 - £1.50 y Kg
 - Gwerth Pysgodfa £500,000 -£750,000
- Agorodd **pysgodfeydd cocos y Gogledd** yn Nhraeth Melynog (168 tunnell), Traeth Lafan (393 tunnell) a Thraeth Coch (25 tunnell) ar 1 Medi.
 - Rhoddwyd 109 o drwyddedau
 - **Pysgodfa Cregyn Gleision Bae ac Aber Conwy**
 - 22 o awdurdodiadau wedi'u rhoi i bysgota yn y bysgodfa hon sydd ar gau.
 - Agorodd **Pysgodfa Cregyn y Brenin Cymru** ar 1 Tachwedd.
 - 27 o awdurdodiadau wedi'u rhoi
 - Mae'r **bysgodfa cyllyll môr hamdden** yn Llanfairfechan a Phenmaenmawr yn dal ar gau tan 31 Rhagfyr 2019 er mwyn diogelu'r stoc ac fel y gellir cynnal asesiad o'r stoc.
 - **Pysgota hamdden â chewyll yng Ngogledd Cymru** (Is-ddeddf 30) 2019-2020 Trwydded chwemisol
 - 419 o drwyddedau wedi'u rhoi hyd yn hyn.

PRIF BYSGODFEYDD

2. Cocos

Barrie John / Greta Hughes

Gwelir ychydig bach yn fwy o ddi-ddordeb yng ngwelyau cocos y Gogledd yn sgil cau pysgodfa Bae Morecambe. Ar draeth Melynog y cafwyd y prif weithgarwch, lle mae chwe chasglwr yn casglu cocos o bryd i'w gilydd. Mae dau neu dri chasglwr yn casglu o bryd i'w gilydd ar Draeth Coch.

Roedd y gwelyau cocos yn Ardal y Tair Afon wedi parhau i fod ar agor i gasglwyr masnachol drwy gydol mis Hydref. Roedd swyddogion wedi parhau i oruchwylio'r gwelyau i sicrhau y cydymffurfir â rheolau'r trwyddedau a hefyd i gadw llygad pan oedd y gwelyau ar gau. Ers i'r bysgodfa gau, dim ond ambell adroddiad ar weithgarwch potsio sydd wedi dod i law.

3. Draenogiaid y môr

Barrie John

Gwnaeth y rheoliad sy'n ymwneud â chyfanswm y dalfeydd a ganiateir a chwotâu rwystro pysgotwyr rhag pysgota draenogiaid y môr Ewropeaidd ei gyflwyno ym mis Chwefror a mis Mawrth. Mae mesurau mwy llym bellach wedi cael eu cyflwyno ar gyfer gweddill y flwyddyn, gan gynnwys lleihau'r meintiau a ganiateir fesul metier gwahanol. Cafodd cychod cymwys eu hawdurdodi.

Yn ôl yr arfer, gwelwyd gostyngiad mewn gweithgarwch gan y sector dal draenogiaid y môr yn ystod chwarter olaf 2018 wrth inni gyrraedd diwedd pysgodfa'r haf/hydref, gydag ychydig iawn o weithgarwch ym mis Tachwedd a Rhagfyr. Mae'r diwydiant wedi parhau i nodi niferoedd sylweddol o ddraenogiaid ifanc ac aeddfed mewn dyfroedd arfordirol.

Daeth cyfyngiad hamdden o un pysgodyn y pen fesul diwrnod (naill ai wrth bysgota o gwch neu ar y lan) ddod i rym ar 1 Hydref ac fe barodd tan ddiwedd y flwyddyn.

4. Cramenogion

Greta Hughes

Roedd dalfeydd cramenogion yn amrywio a gwnaeth y gwaith ddirywio tuag at ddiwedd y cyfnod. Roedd rhai pysgotwyr wedi parhau i bysgota â chewyll i fanteisio ar y prisiau cynyddol gyda chimychiaid yn gwerthu am £22.50 y kg a chranc coch am £3 y kg.

Defnyddiwyd cewyll corgimychiaid yn lle potiau cimychiaid wrth i'r cyfnod fynd rhagddo yn enwedig i'r de o Aberystwyth gyda dalfeydd da yn cael eu nodi. Cafwyd hefyd fwy o ddi-ddordeb na'r arfer yn y bysgodfa corgimychiaid i'r gogledd o Ben Llŷn ac eto nodwyd dalfeydd da.

5. Cregyn bylchog

Barrie John / Greta Hughes

Yn ôl yr arfer, agorodd y cyfnod casglu cregyn bylchog ar 1 Tachwedd yn nyfroedd Cymru. Ychydig o weithgarwch sydd wedi'i nodi ym Mae Aberteifi gydag ychydig iawn o gychod yn pysgota yn ardal agored SAC. Mae adroddiadau cymysg wedi dod i law oddi wrth y rheini sy'n ymwneud â physgota er bod y rhan fwyaf yn nodi peth gwelliant ers y llynedd.

Cafwyd ychydig iawn o weithgarwch casglu cregyn bylchog yng ngogledd Bae Aberteifi yn ystod y cyfnod. Roedd gogledd Pen Llŷn yn brysurach ond roedd y dalfeydd yn wael. Cafwyd dalfeydd gwell o ogledd Ynys Môn a chafwyd dalfeydd eithaf da o Wastadeddau'r Rhyl.

6. Cregyn moch

Barrie John

Mae'r pysgodfeydd cregyn moch ymhlith ein pysgodfeydd mwyaf cynhyrchiol o hyd. Wrth inni symud i chwarter olaf 2018, mae'r fflyd yn parhau i fod yn brysur pan fo'r tywydd yn caniatáu. Nid yw holl ddata 2018 wedi dod i law eto, ond yn ôl yr arwyddion, roedd rhwng 35 a 40 o gychod yn gweithredu yn ystod yr amser hwn gan lanio mwy na 500 tonnelli; gyda gwerth y bysgodfa yn ystod y chwarter yn rhyw £600,000.

ASEDAU AC ADNODDAU

7. Llongau Patrolio Pysgodfeydd

Mark Pole / Paul Rowley

Cyflenwyd y llong patrolio newydd o'r enw Lady Megan ddiwedd mis Tachwedd ac mae'r tîm wedi bod yn arbrofi, hyfforddi a phatrolio. Bydd llong newydd y De o'r enw Rhodri Morgan yn ymuno â'r gwasanaeth ym mis Ionawr 2019. Mae staff wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r Sefydliad Rheoli Morol i baratoi ar gyfer y diwrnod cyntaf ar ôl ymadael â'r UE. Mae taflenni ffeithiau ar gyfer y llongau newydd hyn ar gael ar gais.

Gyda'r llongau patrolio a chriwiau newydd yn eu lle, rydym yn disgwyl llawer mwy o batrolau dros y misoedd nesaf. Mae'r cynnydd hwn wedi'i gynllunio ar y cyd â gwaith blaenoriaethu seiliedig ar risg yr ystafell weithrediadau yn Aberdaugleddau.

Mae Cranogwen wedi'i gwerthu gyda 2 Rib, gyda chynlluniau yn eu lle i gael gwared ar Aegis cyn diwedd mis Chwefror 2019.

Mae proses recriwtio wedi'i chynnal ar gyfer 7 aelod criw newydd ac maent yn cael eu hyfforddi'n ddwys yn y gwaith i ddod yn Swyddogion Gorfodi Morol.

Y Tîm Gorfodi Patrolio Pysgodfeydd (Hydion)

Mis	Nifer y Patrolau	Nifer yr Archwiliadau
Hydref	2	1
Tachwedd	1	3
Rhagfyr	1	0
Ionawr	6	6

RHEOLI A CHYDYMFFURFIO

8. Cydymffurfio â'r Rheoliad Rheoli

Barrie John

Mae'r Ystafell Weithrediadau yn parhau i fonitro symudiadau pob cwch a llong ym mharth Cymru drwy system fonitro cychod y glannau a thrwy gyflwyno data yn electronig drwy'r system gofnodi ac adrodd electronig. Mae sicrhau bod data'n cael eu cyflwyno o fewn yr amserlen ofynnol yn hollbwysig i sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliad. Wrth inni symud tuag at Brexit, mae maint y gwaith yn yr ardal hon yn debygol o gynyddu gan ei bod yn debygol y bydd tystysgrifau dal pysgod i'w mewnfurio/allforio yn ofynnol (gweler eitem 12).

9. Glaniadau Cychod Tramor

Barrie John

Roedd chwarter olaf 2018 yn weddol dawel mewn perthynas â glaniadau gan gychod o Wlad Belg wrth i gyfyngiadau o ran cwota a thywydd gwael atal llawer rhag pysgota o fewn ardaloedd y Môr Celtaidd a Môr Hafren. Adlewyrchwyd y gostyngiad hwn o ran glaniadau gan gychod Anglo-Sbaeneg am fod y rhan fwyaf o'r fflyd yn gweithredu i'r gorllewin o Iwerddon. Mae gwiriadau rheoli llawn wedi cael eu cynnal ar y rhan fwyaf o'r glaniadau hyn er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â gofynion y rheoliad rheoli. Mae hyn yn cynnwys craffu ar ddata'r system fonitro cychod, y cofnodlyfr a datganiadau glanio a gwiriadau ffisegol ar yr adeg glanio gan gynnwys pwyso sampl.

10. Archwilio prynwyr pysgod

Barrie John

Rydym wedi parhau i weithio gyda'r diwydiant er mwyn sicrhau bod y broses newydd o ddefnyddio system electronig i gyflwyno nodiadau gwerthu yn cael ei chyflwyno'n ddidrafferth. Mae swyddogion yn parhau i ymweld â'r prif brynwyr pysgod/pysgod cregyn yn rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r rhwymedigaeth statudol hon ac er mwyn cynnig arweiniad pan fydd angen. Gan fod nifer sylweddol o brynwyr yng Nghymru yn prynu pysgod/pysgod cregyn yn achlysurol ar raddfa fach, mae ein swyddogion wedi blaenoriaethu'r ymweliadau â'r rhain ymhlith blaenoriaethau gweithredol eraill. Fodd bynnag, mae casglu data am ddalfeydd a gwerthiannau yn hollbwysig er mwyn diogelu buddiannau pysgodfeydd wrth inni edrych ar gyfleoedd pysgota yn y dyfodol.

11. Trwyddedu Morol

Phil Marshall

Mae gweithgareddau morol trwyddedadwy wedi arafu o ganlyniad i dywydd drwg a llai o olau ddydd wrth i'r Nadolig agosáu. Fodd bynnag, ar ddechrau mis Hydref, mae'r adolygiad barnwrol ynghylch y deunydd a garthwyd o Hinckley wedi dod i gasgliad pan roddodd y protestwyr y gorau i'w hawliad ar ôl dadlau cyfreithiol. Roedd y gwaith o garthu a gwaredu deunydd wedi'i gwblhau. Cytunwyd ar sawl esemptiad ar gyfer gwaith brys ar amddiffynfeydd arfordirol a pherygl llifogydd. Stopiwyd tri gweithgaredd unigol am weithredu heb drwydded forol ac fe roddwyd cyngor ac addysg ar lafar iddynt.

Mae Swyddogion Gorfodi Morol wedi bod yn archwilio achos honedig o dorri amodau trwydded forol ar Draeth Lleiniog, Ynys Môn yn dilyn pryderon a godwyd gan y cyhoedd am symud/adleoli cerrig mawr.

12. Mewnforio ac allforio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE

Tim Croucher

Cefndir

Fel aelod o'r UE, nid yw'n ofynnol i'r DU lunio na phrosesu tystysgrifau dal pysgod ar gyfer masnach rhwng gwledydd yr UE ar hyn o bryd. Pan fyddwn yn gadael yr UE, tybir y bydd y DU yn cael ei thrin fel trydedd wlad ac y bydd angen cyflwyno tystysgrifau dal pysgod ar gyfer cynhyrchion pysgod a gaiff eu hallforio i'r UE ac y bydd angen tystysgrifau dal pysgod i'w mewnforio ar gyfer pysgod o'r UE. Bydd y gofyniad newydd hwn yn arwain at gynnydd sylweddol yn nifer y tystysgrifau dal pysgod y bydd angen eu llunio a'u prosesu yn y DU.

Tystysgrifau dal pysgod i'w hallforio

Mae Defra a'r Sefydliad Rheoli Morol, mewn cydweithrediad â'r gweinyddiaethau datganoledig, yn datblygu gwasanaeth digidol ar gyfer gweithredu tystysgrifau dal pysgod i'w hallforio ar gyfer cynhyrchion pysgod ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae angen i'r gwasanaeth gael ei ategu gan ddull gweithredu sy'n nodi sut y bydd gweinyddiaethau pysgodfeydd – gan gynnwys Llywodraeth Cymru – yn gwirio'r wybodaeth a gyflwynir ar y tystysgrifau hyn. Rhaid i'r polisi fynd i'r afael â'r tensiwn rhwng Llywodraethau:

- Fel 'galluogwyr' masnach. Yn aml, pan fydd y DU yn masnachu â gwledydd Ewrop, bydd angen i bysgod ffres gael eu hallforio o fewn oriau i lanio; ac
- o ran gorfod monitro pysgota anghyfreithlon, pysgota na roddwyd gwybod amdano a physgota heb ei reoleiddio.

Gall gwiriadau naill ai gael eu cynnal yn ystod y cais am dystysgrif dal pysgod i'w hallforio (drwy gymharu'r wybodaeth y mae'r allforiwr wedi'i rhoi â data a gyflwynwyd yn flaenorol o gofnodlyfrau electronig, datganiadau glanio neu nodiadau gwerthu), neu ôl-weithredol ar ôl i'r dystysgrif gael ei dilysu ac ar ôl i'r wybodaeth angenrheidiol gael ei chyflwyno i'r awdurdodau pysgodfeydd. Gall y gwiriadau hyn gynnwys edrych i weld pwy sy'n gwneud cais am allforio a'r llwyth ei hun (er enghraifft, a yw pwysau'r pysgod y mae am ei allforio'n drymach na'r pwysau a ddaliwyd yn wreiddiol).

Efallai na fydd modd cadarnhau'r data hyn cyn i dystysgrif allforio gael ei dilysu bob amser, yn enwedig pan fydd angen allforio pysgod ffres yn gyflym iawn. Er ei bod yn ofynnol i gychod dros 12m gwblhau cofnodlyfrau electronig cyn glanio, nid oes cofnodion o'r fath ar gael ar hyn o bryd ar gyfer cychod llai (sef y rhan fwyaf o'r fflyd bysgota yng Nghymru). Gall y broblem hon gael ei gwaethygu gan gysylltedd gwael â'r rhyngwyd.

Mae'r polisi sy'n cael ei ddatblygu yn ceisio ystyried y materion uchod. Ar hyn o bryd, mae'r system TG newydd ar gyfer dalfeydd i'w hallforio yn cael ei dreialu gan allforwyr yng Nghymru.

Bydd modd cofrestru ar gyfer y system newydd yn gynnar ym mis Mawrth. Os na fydd y system ar gyfer tystysgrifau dal pysgod i'w hallforio yn barod ar gyfer diwrnod 1 ar ôl ymadael â'r UE, mae opsiwn wrth gefn â llaw yn cael ei baratoi.

Tystysgrifau dal pysgod i'w mewnforio

Mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i'r DU gael tystysgrifau dal pysgod ar gyfer cynhyrchion pysgod a gaiff eu mewnforio o'r UE ar ôl Brexit. Yng Nghymru, byddai tystysgrifau dal pysgod i'w mewnforio yn cael eu gwirio gan:

- Awdurdodau iechyd porthladdoedd – llwythi mewn cynwysyddion; a
- Llywodraeth Cymru – glaniadau uniongyrchol (glaniadau gan gychod tramor).

Byddai'r gwiriadau yn cynnwys gwirio dogfennau a gwirio manylion adnabod.

Tystysgrifau iechyd allforio

Deallir gan swyddogion Defra y bydd yr UE, ar ôl Brexit, yn ei gwneud yn ofynnol bod tystysgrif iechyd allforio yn cael ei chyflwyno cyn allforio cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid (gan gynnwys cynhyrchion pysgod) o'r DU i'r UE a bod y cynhyrchion hynny'n mynd drwy arolygfa ffin.

Mae Defra wedi amcangyfrif y gallai llawer mwy o dystysgrifau iechyd anifeiliaid gael eu cyflwyno ar ôl Brexit, a fydd yn arwain at oblygiadau mawr o ran adnoddau i awdurdodau lleol a gwasanaethau milfeddygol yn ogystal â'r allforwyr eu hunain. Mae Swyddfa'r Prif Swyddog Milfeddygol yn ystyried y mater hwn gyda chyfraniad gan Is-adran y Môr a Physgodfeydd.

Bydd y cyfyngiad ar allforio cynhyrchion pysgod i'r UE drwy arolygfeydd ffin yn golygu y gall fod yn rhaid i rai allforwyr yng Nghymru addasu eu llwybrau masnach. Felly, rydym yn trefnu gwasanaethau ymgynghori er mwyn rhoi cymorth ymarferol i allforwyr cynhyrchion pysgod yng Nghymru wrth iddynt gynllunio ar gyfer y newidiadau hyn.

13. System Casglu Data Pysgodfeydd

Cefndir

Bydd y system Casglu Data Pysgodfeydd yn cyflwyno dau ofyniad gorfodol i fflyd bysgota Cymru. Mae hwn yn brosiect â blaenoriaeth er mwyn defnyddio cyllid Rheoli a Gorfodi presennol o Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a hefyd baratoi ar gyfer gofynion data posibl yn y dyfodol ar gyfer allforio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE fel y nodir uchod.

- Bydd yn ofynnol i bob cwch pysgota masnachol o dan 12m gael System Fonitro Cychod weithredol wrth bysgota yn Nyfroedd Cymru.
- Bydd yn ofynnol i bob cwch pysgota masnachol o dan 10m roi manylion ei weithgarwch pysgota, gan gynnwys y pysgod a ddaliwyd, yr offer a ddefnyddiwyd a'r ymdrech, i Awdurdodau Cymru.

Cynnydd

Mae ymarfer caffael llawn gan Gyfnodolyn Swyddogol yr Undeb Ewropeaidd ar waith i gyflenwi system fonitro ar gyfer y fflyd dan 12 metr ac mae gwaith yn mynd rhagddo mewn partneriaeth â'r Sefydliad Rheoli Morol i ddatblygu system cofnodi dalfeydd gan gychod dan 10 metr. Mae'r cynnydd ers y nodyn diwethaf fel a ganlyn:

- Mae tendr y system monitro cychod bellach yn fyw.
- Mae ymgynghoriad ar y system i'w ddisgwyl ddechrau mis Chwefror.
- Mae'r system cofnodi dalfeydd yn cael ei threialu ar hyn o bryd yng Nghymru.
- Mae disgwyl ymgynghori ar y cofnodion ym mis Chwefror.

GORFODI UNIONGYRCHOL

14. Ymchwiliadau ac Erlyniadau

Barrie John

Mae'r tîm gweithrediadau yn parhau i ymchwilio i droseddau pan fo achosion o dorri deddfwriaeth yn dod i'r amlwg.

Ymdrinnir ag 11 o achosion ar hyn o bryd. Mae 7 achos ar hyn o bryd yn nwylo cyfreithwyr ac yn achos 2 ohonynt, mae gwarantau arestio wedi'u rhoi gan y llysoedd ar gyfer un unigolyn sydd ynghlwm wrth y 2 achos. Ymdriniwyd â'r ail unigolyn gan y llys yn y gwrandawriad.

Mae'r ddau achos wedi ymddangos gerbron y llys ynadon ym mis Ionawr fel a ganlyn:

Cwch Ellie Adhamh - Pysgota mewn ardal waharddedig 31E4 (1 Chwe-31 Maw Adfer Penfreision) o fewn parth Cymru ar 4 Chwefror 2018.

Gwnaeth Mr Sinnut (y llongfeistr ar ddiwrnod y drosedd) bledio'n euog a bu gorfod iddo dalu dirwy o £1000, cyfrannu £350 at y costau a thalu £100 o ordal i'r dioddefwr.

Gorchynnwyd iddo dalu cyfanswm y gost sef £1,450 mewn rhandaliadau o £200.00 y mis.

Gwnaeth Mrs Busher ar gyfer R&E Fish Limited bledio'n euog a bu gorfod iddo dalu dirwy o £4,000, cyfrannu £1,433.80 at y costau a thalu £170 o ordal i'r dioddefwr.

Gorchynnwyd iddi dalu cyfanswm y gosb ariannol sef £5,603.80 ar gyfradd o £500.00 y mis.

Casglu Cocos yn Anghyfreithlon

Cyhoeddwyd gwarant arestio gan y llys am fethu â mynychu i ymateb i gyhuddiadau o ran trosedd honedig yn ymwneud â chasglu cocos.

Mae 2018 wedi bod yn flwyddyn bwysig i'r Tîm Gweithrediadau o ran y mater hwn. Yn dilyn ôl-groniad o achosion yn sgil newid i ddarpariaeth gyfreithiol, ymddangosodd 27 o achosion gerbron yr Ynadon gyda phob un yn pledio'n euog.

RHEOLI FFLYD

15. Trwyddedu cychod

Barrie John

Mae trwyddedu cychod yn niwydiant pysgota Cymru yn dal i fod yn flaenoriaeth allweddol. Mae 27 o gychod dros 10m a 377 o gychod dan 10m o dan strwythur presennol fflyd Cymru. Rydym yn dal i weld oedi wrth gofrestru, sydd yn ei dro yn effeithio ar ein gallu i drwyddedu cychod mewn modd amserol. Rydym yn parhau i gefnogi ein diwydiant drwy sicrhau bod y rhai yr effeithiwyd arnynt yn gallu gweithio tra byddwn yn mynd i'r afael â'r oedi hwn. Bu 117 o drafodion yn ymwneud â thrwyddedau yn ystod y chwarter diwethaf. Roedd 15 ohonynt yn ymwneud â dadgyfuno trwyddedau.

16. Rheoli cwotâu

Mike Jones

Roedd cyfnewidiadau a wnaed yn ystod chwarter olaf y flwyddyn wedi galluogi cwota ychwanegol o forgathod i ddod o Sbaen a Ffrainc. Roedd hyn yn hynod o bwysig o ran cadw'r bysgodfa morgathod llygaid bach ar agor ym Môr Hafren pan ymddangoswyd y byddai dyraniad yr UE yn cael ei ddisbyddu yn gynnar ym mis Tachwedd.

Ni chaewyd unrhyw bysgodfeydd yng Nghymru yn 2018 ac mewn sawl achos, roedd cychod Cymreig o dan 10 metr wedi pysgota'n well yn unol â dyraniadau gwell na'r un cychod yn Lloegr, yn enwedig ar gyfer lledod, lledod cochion a morgathod.

Defnyddiwyd y mwyafrif llethol o gwota cychod dan 10 metr Cymru ar gyfer lledod ym Môr Iwerddon (94% o'r cwota wedi'i ddefnyddio), lledod cochion ym Môr Hafren (tua 60% wedi'i ddefnyddio) a morgathod (79% o'r cwota wedi'i ddefnyddio). Bydd Cyfanswm y Ddalfa a Ganiateir ar gyfer y tair rhywogaeth hyn yn cynyddu yn 2019 sy'n newyddion da i'r sector.

17. Draenogiaid y môr

Mike Jones

Roedd mesurau 2019 ar ddraenogiaid y môr yn destun trafodaeth hir yng nghyfarfod y Cyngor mis Rhagfyr. Mae'r mesurau cytunedig yn parhau i alluogi aelod-wladwriaethau i gyfrannu at yr arwyddion adfer cynnar sy'n cyfiawnhau'r cyfyngiadau masnachol a hamdden y bu'n rhaid i bysgotwyr eu derbyn dros y 3 blynedd ddiwethaf.

Fe welwch fanylion cyfyngiadau 2019 ar bapur ar wahân i'r WMFAG.

18. Gwrachod y môr

Phil Marshall

Nid yw Marine Harvest, sydd wedi prynu'r fferm bysgod ar Ynys Môn, wedi cymryd unrhyw wrachod y môr o Ddyfroedd Cymru yn 2018, ac nid oes unrhyw gynlluniau i wneud hyn ar hyn o bryd. Mae ymchwil dwys yn parhau ym maes ffermio gwrachod y môr caeth sef y nod yn yr hirdymor. Mae Llywodraeth Cymru yn dal i gyfathrebu â Southern IFCA ynghylch pa mor dda y mae ei mesurau gwirfoddol yn gweithio o ran pysgota gwrachod y môr yn fasnachol ar hyd arfordir De Lloegr.

19. Erlyniadau

Barrie John

Yn chwarter 3, cafodd un achos ei erlyn yn y llys a chafodd yr achosion eraill eu gohirio tan y Flwyddyn Newydd.

Enw'r Cwch neu'r Diffynnydd	Trosedd a Gyflawnwyd	Cyfanswm ar gyfer yr achos
D Lewis	Casglu Cocos yn ystod y nos	£380

20. Tudalennau Gwe

Andy Bradick

- Mae hysbysiad cyhoeddus am gau'r Tair Afon dros dro wedi'i gyhoeddi.
- Mae canllawiau pysgota hamdden â chewyll a cheisiadau am drwyddedau chwemisol wedi'u cyhoeddi ar y we.
- Hysbysiad Cyhoeddus ar ymestyn y cyfnod y bydd pysgodfa cyllyll môr Llanfairfechan a Phenmaenmawr ar gau.
- Gwaith cychwynnol i roi strwythur i dudalennau ar adran y Môr a Physgodfeydd wedi dechrau.
 - Gwahanu Pysgodfeydd Rhynglanwol a'r Môr.
 - Mae datblygiadau yn y dyfodol yn cynnwys gwahanu gweithgareddau masnachol ac hamdden.
- Eitem newyddion i annog tanysgrifio i'r Bwletin Pysgodfeydd a Brexit a hysbysiad o gyfarfodydd ar Brexit a fydd yn cael eu cynnal ledled Cymru rhwng 16 a 31 Ionawr.
- Dolen i Ddatganiad Ysgrifenedig y Gweinidog: Offeryn Statudol Pysgodfeydd Cregyn Moch Cymru.

Grŵp Cyngori ar Bysgodfeydd Môr Cymru – (M1) – Eitem 3

Atodiad 1. Dangosyddion Perfformiad Gweithrediadau Pysgodfeydd o fis Hydref 2018 hyd at fis Rhagfyr 2018.

Maes Gwaith	Gweithgaredd	Hydref 2018	Tachwedd 2018	Rhagfyr 2018
Gorfodi deddfwriaeth pysgodfeydd morol	Patrolau ar y môr	2	1	1
	Archwiliadau ar y môr	1	3	0
	Archwiliadau mewn porthladdoedd	53	28	24
	Porthladdoedd yr ymwelwyd â nhw	147	109	69
	Archwiliadau o gofrestrïadau prynwyr a gwerthwyr	20	4	3
Ymchwilio i droseddau yn ymwneud â physgodfeydd môr	Troseddau a ganfuwyd	0	0	0
	Ymchwiliadau newydd	0	0	0
	Ymchwiliadau sy'n mynd rhagddynt	10	10	10
	Rhybuddion ysgrifenedig swyddogol	0	0	0
	Erlyniadau llwyddiannus	0	0	1
Gorfodi'r system trwyddedu morol	Trwyddedau morol gweithredol	98	101	100
	Nifer y Trwyddedau Morol a Archwiliwyd	2	2	2
	Troseddau	1	0	0
	Ymchwiliadau sy'n mynd rhagddynt	1	1	1